# O'R WASG

**Anne Till yn edrych ar rai llyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar**

Parry, Glyn: ***A guide to the Records of the Great Sessions in Wales,*** Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1995.

Am bron i 300 mlynedd bu Llys y Sesiwn Fawr yn rhan annatod o'r gymdeithas yng Nghymru. O 1543 hyd 1830, bu'n trafod achosion troseddol, sifil ac ecwiti yng Nghymru. Bu trafodion y Llys yn ffynhonnell werthfawr ond anhylaw i haneswyr dros y blynyddoedd, ond y mae'r gyfrol swmpus hon yn rhoi arweiniad eglur i'r stôr o wybodaeth a geir yn y cofnodion sydd ym meddiant y Llyfrgell Genedlaethol. Mae awdur y gyfrol, Glyn Parry, yn Archifydd Cynorthwyol yn y Llyfrgell, ac fe geir ganddo restr a disgrifiad o'r gwahanol gofnodion ynghyd â rhagarweiniad safonol i'r Llys a'i weithgaredd. Dyma gyfrol hanfodol i ymchwilwyr a haneswyr Cymru yn ogystal â phawb sy'n astudio'r gyfraith.

* * * *

Owen, D. Huw: ***Mapiau printiedig cynnar o Gymru/ Early printed maps of Wales,*** Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1996.

Llyfryn dwyieithog yn rhoi hanes y mapiau printiedig cynharaf, gan gychwyn gyda gwaith Humphrey Llwyd yn 1573. Ceir yma ddisgrifiadau, ynghyd â darluniau lliw a du a gwyn, o fapiau Llwyd, Christopher Saxton a John Speed a diddorol yw gweld pa mor gywir yw'r dyluniad o amlinelliad y wlad. Ganrifoedd cyn oes lloerenni a ffotograffau o'r awyr, y mae amlinelliad arfordir Cymru a lleoliad y trefi yn hynod o gywir. Diddorol hefyd yw sylwi ar fap Humphrey Llwyd fod enwau rhai trefi yn cael eu nodi yn Gymraeg ac yn Saesneg; Abertyvi/Cardigan, Abertawy/Swansey, Caerdhydh/Cardyf — gwers i ddylunwyr mapiau yr oes hon!

* * * *

Lord, Peter: ***Words with pictures: Welsh images and images of Wales in the Popular Press 1640-1860,*** Aberystwyth: Planet, 1995.

Yn y gyfrol hon mae Peter Lord yn astudio dwy agwedd wahanol ar ddarluniau yn y wasg boblogaidd yn y ddeunawfed ganrif. Ar un llaw, fe geir yma enghreifftiau o'r ddelwedd Seisnig o'r Cymro — y *'Taffy was a Welshman/Taffy was a Thief'* bondigrybwyll. Erbyn canol yr ail ganrif ar bymtheg, yr oedd y syniad poblogaidd o'r Cymro wedi ei dderbyn — tlotyn anonest a drewllyd a wirionai ar fwyta caws pôb a chennin. Mae'r ddelwedd o unigolion Cymreig hefyd, bron yn ddieithriad, yn hyll a gwrthun.

Ar y llaw arall, fe geir yma hefyd ymdriniaeth o waith darluniadol y Cymry, o ddychan politicaidd Thomas Pennant i'r darluniau a geid ar faledi'r cyfnod.

Mae'r gwaith ymchwil manwl, a'r darluniau difyr a geir yn y gyfrol yn siŵr o apelio at bawb sy'n ymddiddori yn hanes cymdeithasol y ddeunawfed ganrif yng Nghymru a Lloegr.

* * * *

Suggett, Richard: ***John Nash: Architect in Wales / Pensaer yng Nghymru,*** Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1995.

Cyhoeddwyd y gyfrol hon ar y cyd rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gyd-fynd ag arddangosfa o waith John Nash yng Nghymru. Ceir yma ddisgrifiad o dros 40 o safleoedd gan gynnwys Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Carchardy Aberteifi a Phont Aberystwyth yn ogystal â thai bonedd megis Dolaucothi, Yr Hafod a Chastell Penarlâg. Symud ymlaen o beirianneg a gweithiau cyhoeddus at y plastai a wnaeth Nash a chafodd ddigon o waith yn adeiladu neu ailadeiladu'r tai bonedd yn ne-orllewin Cymru. Mae'r manylion am gostau adeiladu a'r berthynas rhwng y pensaer a'r perchennog yn hynod ddifyr ac yn profi nad oes dim yn newid yn y byd adeiladu. Meddai un o'i gwsmeriaid amdano, 'Mae'n rhesymol yn ei ffioedd, ond ni roddwch goel ar ei amcangyfrifon (a) mynnwch rywun arall i weithredu ei gynlluniau.'

Fel un o ddilynwyr y symudiad 'pictiwresg', yr oedd manylion pensaernïol yn holl bwysig i Nash ac fe geir cynlluniau manwl ar gyfer y llaethdai, lluestai a'r bythynnod a gâi eu gosod mewn mannau pwrpasol ar y stadau er mwyn plesio'r llygad.

Diddorol iawn yw darllen y manylion yma am gynllunio adeiladau sydd bellach yn rhan annatod o'r tirwedd Cymreig.

* * * *

Bromwich, Rachel: ***Medieval Welsh Literature to c.1400, including Arthurian Studies: a personal guide to University of Wales Press publications;*** 50 tud., 1996.

Syniad diddorol a gwreiddiol oedd cyhoeddi'r cyfuniad hwn o gatalog a llyfryddiaeth i lenyddiaeth Gymraeg yr oesoedd canol. Mae'r cyfarwyddiadur hwn yn seiliedig ar deitlau a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru — rhai ohonynt yn ddiweddar iawn — ac sy'n dal mewn print, ond cyfeirir o bryd i'w gilydd at lyfrau gweisg eraill sy'n ychwanegu cryn dipyn at ddefnyddioldeb y llyfryn hwn. Mae'r rhestr yn cynnwys testunau, beirniadaeth lenyddol ac astudiaethau cefndirol ar waith y cynfeirdd, y gogynfeirdd, y cywyddwyr cyntaf (hynny yw Dafydd ap Gwilym, Iolo Goch a'u cyfoeswyr), y gweithiau rhyddiaith a llenyddiaeth Arthuraidd, yn ogystal â gramadegau a geiriaduron. Mae pob teitl yn cael ei ddisgrifio'n gynnil ond yn olau gan Rachel Bromwith, un o'n hysgolheigion pennaf a mwyaf profiadol yn y meysydd hyn, fel bod y rhestr hon yn wir arweinlyfr safonol ond hwylus i lenyddiaeth Cymraeg Canol. Bydd yn ddefnyddiol i bob efrydydd a llengarwr, ond yn rhyfedd braidd, ni nodir prisiau'r llyfrau a drafodir.

# CADW TŶ YN 1815-17 PERSONDY LLANRUG

**gan MARI ELLIS**

MEWN hen lyfr cyfrifon a gadwai'r Parchg. Peter Bayley Williams a'i wraig Hannah yn y blynyddoedd 1815-17, cawn lawer o wybodaeth am gostau byw y blynyddoedd hynny. Roedd ganddynt un mab, Henry, y cyfeirir ato fel Harry, oedd yn naw i un ar ddeg oed yn y blynyddoedd hynny. Ei dad oedd yn ei hyfforddi gartref a rhannai wersi efo John Roberts, mab goruchwyliwr Chwarel Allt Ddu.

Yn yr oes honno yr oedd y gwehydd a'r teiliwr yn grefftwyr pwysig ym mhob ardal. Ym mis Gorffennaf 1817 talodd Hannah bum swllt a chwe cheiniog i Samuel y gwehydd am nyddu 22 llathen o ddeunydd, ac erbyn mis Medi roedd yn setlo bil arall am un swllt ar bymtheg iddo. Yn 1815 talodd saith swllt i Siôn Deiliwr am wneud pâr o ddillad i Harry efo defnydd oedd wedi costio dwy bunt. Talodd chwe swllt am esgidiau iddo a deuddeg swllt am het. Ymhen y flwyddyn, a'r hogyn yn prifio, costiodd y dillad un swllt ar ddeg a thair ceiniog; yn nes ymlaen penderfynodd Hannah y gallai'r teiliwr wneud dillad iddo allan o'i hen wisg farchogaeth hi. Yr oedd digonedd o ddeunydd mewn gwisg felly, a orchuddiai goesau merch wrth iddi eistedd ar gyfrwy benyw. Ond costiodd hynny chwe swllt.

Codai'r teiliwr £1.16.9 am wneud côt fawr i'r ficer, a phunt ar ben hynny am wasgod a *gaiters*. Dim ond swllt a gostiodd y *large loose cape* a wisgai wrth farchogaeth. Yr hyn sy'n ddiddorol am hyn yw fod cof gwlad yn Llanrug wedi parhau hyd y ganrif hon am Peter Bayley Williams yn marchogaeth drwy'r pentref yn gwisgo cêp fawr laes.

Ni fu Hannah yn esgeulus o'i dillad ei hun chwaith. Roedd angen pedair llath o ddeunydd *muslin* i wneud gŵn, a chostiodd hynny un swllt ar ddeg. Talodd bunt a dau swllt am glogyn newydd; cawsai lifo'r hen un am hanner coron (2/6). Mae'n debyg mai ar gyfer ei het y prynodd *a plume of feathers* am chwe swllt.

Ond gwnïai Hannah lawer iawn ei hunan, fel pob gwraig yn y cyfnod hwnnw. Talodd £1.1.3 am 12¾ llathen o liain ar gyfer ffedogau'r morynion a phrynodd dair llathen o ddeunydd cotwm i wneud betgwn i Shany, y forwyn hynaf, a phrynodd siôl iddi am ddeuswllt. Pan briododd Sali'r forwyn rhoes rubannau iddi ar gyfer ei ffrog a lês i Neli, y forwyn arall. Dychwelodd y ficer y tâl priodas i'r briodferch.

Gofalai Hannah fod gan bob gwraig a ddisgwyliai fabi ddigon o ddillad yn barod ar ei gyfer, a rhoddai botelaid o ffisig cartref a photel o gwrw i aml un. Cadwai flawd ceirch a chaws yn y tai wrth ymweld, a rhannai win sinsir i gleifion y plwyf. Brithir y llyfr cyfrifon ag eitemau megis *'gave 2 poor persons 2/–'; 'gave an old woman* $6^{d}$*'; 'Gave old Catrin 1/–'.* Rhoes chwe cheiniog i eneth am ddod o hyd i froets a gollodd, a swllt i wraig am ddychwelyd chwip y gaseg a fu ar goll.

Yr oedd rhannu elusen ar Ddygwyl Domas (22 Rhagfyr) yn hen draddodiad yng Nghymru. Anrheg dderbyniol iawn yr adeg honno o'r flwyddyn fyddai glo. Prynai Hannah ef yn syth oddi ar y llong yng Nghaernarfon a chostiai ddeunaw swllt y dunnell. Rhannai lawer ohono rhwng y Nadolig a'r Calan. Talodd i Siôn Deiliwr am wneud dillad i blant tlawd y plwyf a gwariodd dri swllt a phum ceiniog am dri phâr o glocsiau ar gyfer y tlodion.

Pan fu farw Hannah, ym mis Ionwr 1835, canodd Gutyn Padarn alarnad ar ei hôl:

*Mam i'r amddifad a'r tlawd a fu*
*Ei hunig bleser oedd gwneud da i'r byd,*
*Pawb trwy y wlad a wyddent am ei thŷ*
*Fel porth angenawg, lle caent lety clyd.*

Cip yn unig, wrth reswm a gafwyd ar y llyfr cyfrifon difyr hwn; yr unig un, allan o gyfres a gadwyd yn ddeddfol gan Hannah a'i gŵr, ac a achubwyd fel pentewyn o'r tân. Diolch amdano.